**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: EJ/CE
Ein cyf/Our ref:FM -/00858/18

Elin Jones AC/AM
Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Llywydd@cynulliad.cymru

11 Ionawr 2019

Annwyl Elin

Rwyf yn ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr 4 Rhagfyr at fy rhagflaenydd fel Prif Weinidog, ynghylch craffu ar ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Brexit a sut i sicrhau y gall y Cynulliad Cenedlaethol chwarae rhan lawn wrth ddeddfu ar gyfer Brexit.

Mae dull gweithredu Llywodraeth Cymru'n adlewyrchu'r ffaith bod gwir angen ymateb i'r amgylchiadau eithriadol ynghylch Brexit, yn hytrach nag unrhyw ymdrech i lesteirio neu gyfyngu ar rôl y Cynulliad fel deddfwrfa.

Gallaf gadarnhau bod y cywiriadau sy'n cael eu gwneud i'r ddeddfwriaeth a wneir yng Nghymru gan y Cynulliad a Gweinidogion Cymru, fel y bo modd gweithredu Llyfr Statud Cymru o hyd adeg ymadael â'r UE, yn cael eu cyflawni mewn hyd at 50 o Offerynnau Statudol, i'w gwneud gan Weinidogion Cymru, ac yn cael eu gosod yn y Cynulliad. Bydd hyn yn hwyluso gwaith craffu llawn gan y Cynulliad gan sicrhau bod y cywiriadau'n cael eu gwneud yn y ddwy iaith swyddogol.

Er hynny, bu angen gweithio gyda Llywodraeth y DU ar agweddau eraill ar y broses o ddeddfu ar gyfer Brexit.

Mae'n wir bod Gweinidogion Cymru'n ceisio pwerau dirprwyedig o dan dri o Filiau Brexit sydd gerbron Senedd y DU ar hyn o bryd, a'n bod yn mynd ar drywydd y dull gweithredu hwn, o dan yr amgylchiadau, yn hytrach na chyflwyno Biliau i'r Cynulliad. Rwyf yn cytuno nad yw'r weithdrefn Cydsyniad Deddfwriaethol a nodir yn Rheol Sefydlog 29 yn caniatáu i'r Aelodau graffu ar y ddeddfwriaeth hon gyda'r un manylder ag ar gyfer Bil gan y Cynulliad. Er hynny, pan fyddwn yn siarad am wneud penderfyniadau deddfwriaethol ar sail effeithlonrwydd, rhaid cydnabod nad cyfleuster gweinyddol yn unig yw hyn. Ni fyddem wedi llwyddo i gyflwyno'r swmp hwn o ddeddfwriaeth gerbron y Cynulliad mewn amserlen mor

gywasgedig. Bydd Llywodraeth Cymru, i'r graddau y bo modd yn yr amserlen sydd gennym, yn ceisio hwyluso gwaith craffu gan y Cynulliad trwy ymgysylltu amserol ac ymatebol.

Fel y gwyddoch, ers Mai 2016, mae'r Cynulliad wedi pasio deg Bil (un ohonynt yn aros am y Cydsyniad Brenhinol), ac ar hyn o bryd mae pedwar Bil gerbron y Cynulliad i'w hystyried. O safbwynt is-ddeddfwriaeth, mewn blwyddyn nodweddiadol, mae rhyw 150 o Offerynnau Statudol yn cael eu gosod yn y Cynulliad.

Pe baem wedi penderfynu bod holl ddeddfwriaeth ymadael â'r UE mewn meysydd datganoledig yn mynd i gael ei gwneud yng Nghymru, yna rhwng Medi 2018 a Mawrth 2019 byddai wedi bod yn ofynnol gosod 200 o Offerynnau Statudol ychwanegol a 4-6 o Filiau ychwanegol yn y Cynulliad. Hyd yn oed pe bai modd atal holl fusnes arall y Llywodraeth a'r Cynulliad am y cyfnod hwn, byddai rhaglen ddeddfwriaethol Brexit wedi gofyn am dreulio chwe mis o amser y Cynulliad a'r Llywodraeth yn gwneud mwy o ddeddfwriaeth nag a wneir mewn blwyddyn yng Nghymru fel rheol. Ni fyddai modd pasio'r Biliau angenrheidiol yn yr amser hwnnw trwy ddilyn gweithdrefn garlam a fyddai'n cyfyngu ar allu'r Cynulliad i graffu arnynt.

Ar hyn o bryd rwyf yn disgwyl i 140-150 o Offerynnau Statudol ymadael â’r UE gan Lywodraeth y DU gael eu gwneud mewn meysydd sydd wedi'u datganoli i Gymru cyn y diwrnod ymadael, er y gallai'r nifer hwn newid wrth i Offerynnau Statudol gael eu huno neu eu dadgyfuno. Bydd bron pob un o'r rhain yn gorfod cael cydsyniad Gweinidogion Cymru trwy'r broses a nodir yn y Cytundeb Rhynglywodraethol.

Mae Gweinidogion Cymru yn cydsynio i Offerynnau Statudol y DU yn unig lle nad oes gwahaniaeth o ran polisi rhwng Cymru a'r DU, ac ar y sail honno nid yw'r Offerynnau Statudol yn sensitif yn wleidyddol. Gwneir yr Offerynnau Statudol hyn at ddibenion gwneud cywiriadau fel y bydd modd gweithredu'r llyfr statud adeg ymadael â’r UE ac maent yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru.

Mae Llywodraeth yr Alban yn mabwysiadu'r un dull gweithredu ag sydd gennym yng Nghymru gyda nifer tebyg o Offerynnau Statudol yn cael eu symud ymlaen gan Lywodraeth y DU ar ran yr Alban.

Mae eich llythyr yn crybwyll y defnydd o bwerau cydredol. Mae penderfyniadau ynghylch pwy a ddylai arfer pwerau a roddir i endidau'r UE ar ôl ymadael yn cael eu hystyried yng nghyd-destun pob Offeryn Statudol, yn dibynnu ar natur y pŵer o dan sylw, ac a oes ffactorau'n bodoli sy'n golygu nad yw'n ddymunol i weinyddiaeth arfer y pŵer hwnnw heb ymwneud gweinyddiaeth arall. Lle bo swyddogaeth o fewn maes sydd wedi'i ddatganoli i Gymru, ein safbwynt diofyn yw y dylid cyflwyno'r swyddogaeth berthnasol i Weinidogion Cymru neu i gorff cyhoeddus priodol yng Nghymru. Er hynny, ceir nifer o amgylchiadau lle na fydd y safbwynt diofyn yn briodol nac yn ymarferol. Mae'r rhain yn debygol o godi, er enghraifft:

- Lle bo natur drawsffiniol darparu gwasanaethau'n gofyn am gydweithredu agos rhwng y ddwy wlad, er budd dinasyddion neu i osgoi gosod baich diangen ar sefydliadau. Gallai hyn fod oherwydd y ffordd y mae pobl neu nwyddau'n teithio dros y ffin, neu nodweddion daearyddol arbennig y ffin.
- Mae'r agweddau datganoledig a heb eu datganoli ym maes cyflawni polisi yn cyd-blethu gymaint â'i gilydd, fel nad yw'n ymarferol i'r elfennau datganoledig gael eu cyflawni heb gyfeirio at yr elfennau heb eu datganoli, neu i'r gwrthwyneb.

Yn yr achosion hyn mae ystod o opsiynau ar gyfer sut y gellir arfer swyddogaethau, ac mae'r Gweinidogion yn dod i benderfyniad ar bob un o Offerynnau Statudol unigol y DU ar ôl ystyried yr holl faterion perthnasol. Un o ganlyniadau cynnwys y ddwy weinyddiaeth yn y gwaith o arfer swyddogaethau yw creu pwerau cydredol.

Mae'r Cynulliad wedi diwygio Rheolau Sefydlog i hwyluso craffu ar Offerynnau Statudol ymadael â’r UE gan Lywodraeth y DU. Mae fy swyddogion wedi ymateb iddynt trwy osod 76 o ddatganiadau ysgrifenedig yn eu cylch pan gânt eu gosod yn Senedd y DU a hefyd 14 o Femoranda Cydsyniad Offerynnau Statudol. Caf ar ddeall fod y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn bwriadu cynhyrchu adroddiad ar ôl toriad y Cynulliad ar y datganiadau ysgrifenedig sydd wedi'u gosod hyd yn hyn. Edrychaf ymlaen at gael yr adroddiad hwnnw ac at ystyried unrhyw welliannau y mae'r Pwyllgor yn eu hargymell.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion Pwyllgorau'r Cynulliad, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd a'r Darpar Gwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit.

Rwyf yn gobeithio bod cynnwys y llythyr hwn yn rhoi sicrwydd bod y penderfyniadau a wneir gan Weinidogion Cymru wedi'u cynllunio i gydbwyso'r set eithriadol o alwadau sy'n cael eu creu gan Brexit, a bod Llywodraeth Cymru'n wedi ymrwymo o hyd i ddarparu'r cyfleoedd ymarferol mwyaf posibl ar gyfer craffu ar y camau deddfwriaethol hynny sydd â diben perthnasol, yn hytrach na thechnegol yn unig. Rydym wedi ymrwymo, wrth gwrs, i gadw hyn i gyd o dan ystyriaeth ac rydym yn croesawu'r ddeialog ar y materion hyn y mae eich llythyr wedi'i sbarduno.

Yn gywir

**MARK DRAKEFORD**